

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

348- Beirniadaeth Rhyddiaith dan 25 oed (Stori Fer)

Beirniad – Elen Wyn

Un ymgais yn unig ddaeth i law sef stori fer LILI, a 'ches i ddim fy siomi a'r cynnwys.

Dyma storiwr sy'n dallt sut mae sefydlu awyrgylch. Stori am farwolaeth sydd yma, ac ymateb cymdeithas i alar. Mae gan LILI ddawn storiol yn bendant, a llwyddai i ddarlunio'r tŷ galar yn arbennig mewn iaith naturiol. Mae yna ffraethineb, a rhyw hiwmor tywyll yn perthyn i'r gwaith. Chwa o awyr iach yn wir, achos weithiau, mae darllen am farwolaeth yn gallu bod yn syrffedus o ddigalon. Mae'r diwedd glo hefyd yn hyfryd o glyfar.

Braint oedd cael beirniadu'r gystadleuaeth yma, a llongyfarchiadau i LILI. Dwi'n edrych ymlaen i ddarllen 'chwaneg o dy waith.

1af - Buddug Roberts